Rhif: WG30807

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 7 o'r Ddeddf, ar Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant ac Oedolion sy'n wynebu risg

Dyddiad cyhoeddi: **31 Ionawr 2017**
Ymatebion erbyn: **25 Ebrill 2017**

OGL © Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn am Gyfrolau 5 a 6 o'r Canllawiau Statudol sy'n cael eu gwneud i gynorthwyo awdurdodau lleol a'u partneriaid i ateb y gofynion dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Sut i ymateb**

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon, a'i dychwelyd atom drwy'r post i'r cyfeiriad isod:

Y Gangen Diogelu ac Eiriolaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae casgliad o Ganllawiau Statudol wedi cael eu cyhoeddi dan Ran 7 o Ddeddf 2014:

Mae Cyfrolau 1 – 4 o'r Canllawiau Statudol mewn perthynas â Rhan 7 o'r Ddeddf wedi cael eu cyhoeddi:

of the Act have been issued:

- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 4 – Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion.

**Manylion Cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Diogelu ac Eiriolaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: Lisa.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

ffôn: 029 2080 1196

**Diogelu Data**

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**Ymgynghoriad**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn am gyfrolau 5 a 6 o'r canllawiau statudol Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl a ddatblygwyd er mwyn helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid i weithredu Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").

Mae **Cyfrol 5: Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg** yn rhoi cyngor ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd os oes gan unigolyn bryderon ynghylch llesiant neu les plentyn (gan gynnwys y rhai sy'n byw oddi cartref) ac yn arbennig pryderon bod plentyn:

- yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu'n dioddef unrhyw fath arall o niwed neu'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu o ddioddef unrhyw fath arall o niwed; neu
- yn blentyn ag anghenion o ran gofal a chymorth.

Mae **Cyfrol 6: Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg** yn rhoi cyngor ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd os oes gan rywun bryderon ynghylch llesiant neu les oedolyn sy'n wynebu risg1 (gan gynnwys y rhai sy'n byw oddi cartref); ac yn arbennig pryderon bod oedolyn:

- yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso;
- yn oedolyn ag anghenion o ran gofal a chymorth; neu
- yn methu â'i amddiffyn ei hun rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu y rhag y risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso o ganlyniad i'r anghenion hynny

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y broses i'w dilyn dan yr amgylchiadau hyn. Nid yw'r ymgynghoriad wedi'i fwriadu i nodi'r gweithdrefnau ymarfer gan y bydd y rhain yn cael eu datblygu trwy Weithdrefnau Amddiffyn Cymru Gyfan a fydd yn cael eu datblygu ar wahân gan ymarferwyr diogelu.

**Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014, yn creu system gyfreithiol newydd i wasanaethau cymdeithasol. Mae'n creu fframwaith sy'n dwyn ynghyd ac yn moderneiddio'r gyfraith ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r trefniadau diogelu ar gyfer plant ac oedolion yng Nghymru. Mae cyflwyno'r **ddyletswydd i hysbysu** yn cyflwyno darpariaethau i bartneriaid perthnasol hysbysu'r awdurdod lleol pan gredir bod rhywun yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso (neu yn achos plant, yn wynebu risg o ddioddef mathau eraill o niwed).

I ategu'r Ddeddf, mae'r Canllawiau Statudol wedi cael eu cyhoeddi mewn cyfrolau ar wahân dan y pennawd cyffredin **Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl**. Mae'r cyfrolau canlynol wedi cael eu cyhoeddi:

Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg

Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant

[Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion]

[Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 4 – Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion]

Mae Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy’n Wynebu Risg a Chyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy’n Wynebu Risg wedi cael eu cyflwyno gerbron ar gyfer sylwadau dan yr ymgynghoriad hwn. Mae’r cyfrolau’n gweithio gyda’i gilydd i roi cyngor ynghylch y broses pan fo gan unigolyn bryderon o ran diogelu ynghylch plentyn neu oedolyn sy’n wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu o ddioddef mathau eraill o niwed.

Mae’r cyfrolau’n disodli’r canllawiau Diogelu Plant: Gweithio gyda’n Gilydd (Dan Ddeddf Plant 2004) a Mewn Dwylo Diogel, sef y Canllawiau ynghylch Rhoi Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion ar Waith yng Nghymru.

**Y cynigion**

Mae’r canllawiau wedi’u diweddaru’n nodi disgwyliadau eglur ynghylch y ffyrdd y dylai asiantaethau ac ymarferwyr weithio gyda’i gilydd i ddiogelu’r holl bobl yng Nghymru mewn perthynas â’r dyletswyddau dan y Ddeddf, gan gynnwys:

- Y ddyletswydd i hysbysu ar gyfer unrhyw bartner perthnasol lle ceir sail resymol dros gredu bod plentyn neu oedolyn yn wynebu risg.

- Y ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i wneud ymholiadau i benderfynu a yw’n ofynnol cymryd unrhyw gamau gweithredu i ddiogelu’r rhai sy’n wynebu risg

Yn dilyn yr ymgynghoriad byddwn yn diweddaru’r dogfennau i gymryd y sylwadau a gafwyd i ystyriaeth ac yn eu cyhoeddi fel rhan o’r casgliad llawn o gyfrolau dan Ran 7: Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl.

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

| **Ymdrin ag Achosion Unigol ar gyfer Plant ac Oedolion sy'n Wynebu Risg** | | |
|---|---|---|
| **1. A yw'r canllawiau'n glir ac yn hawdd i'w dilyn?** | | |
| **Ie** ☐ | **Na** ☐ | **Ansicr** ☐ |
| | | |
| 2. **A oes unrhyw ran o'r canllawiau a fyddai'n fwy priodol i'r fersiwn ddiwygiedig o Weithdrefnau Amddiffyn Cymru Gyfan? Os felly, nodwch isod.** | | |
| **Ie** ☐ | **Na** ☐ | **Ansicr** ☐ |
| | | |

| | |
|---|---|
| **3. A yw'r siartiau llif yn rhoi adlewyrchiad digonol o'r broses ar gyfer rheoli achosion unigol? Os nad ydynt, nodwch ba siart lif a sut y gellid ei gwella.** | |
| **Ie** ☐ | **Na** ☐ |
| | |
| **4. Fe hoffem wybod beth yw eich barn am yr effeithiau y byddai'r canllawiau'n eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol**<br><br>i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;<br>ii) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>**Pa effeithiau allent eu cael yn eich tyb chi? Sut ellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?** | |
| Sylwadau | |
| **5. Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon ynglŷn â Rhan 7: diogelu yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Dyma'r nodweddion gwarchodedig: oed, anabledd, ailbennu rhyw, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chredo, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?** | |
| **Ie** ☐ | **Na** ☐ |
| | |

| | |
|---|---|
| **6. A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig?Os felly, pa rai a pham / pam ddim?** | |
| **Ie** ☐ | **Na** ☐ |
| | |
| **7. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol.Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod inni amdanynt.** | |
| | |

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n ddienw, ticiwch y blwch: ☐